# MAREDUDD ab OWAIN ap HYWEL DDA (bu farw 999), brenin Deheubarth

**Enw:** Maredudd ab Owain ap Hywel Dda
**Dyddiad marw:** 999
**Plentyn:** Angharad ferch Maredudd ab Owain
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** brenin Deheubarth
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

Dilynodd ei dad oedrannus fel unig reolwr Deheubarth yn 986 a llwyddo yn y flwyddyn honno i wneuthur yr hyn y llwyddasai ei dad i'w wneuthur, sef aduno Gwynedd a Deheubarth trwy holl gyfnod ei deyrnasiad. Er gwaethaf anghytundeb teuluol gwnaeth argraff ffafriol ar ei gyfoeswyr oblegid ei arweiniad cryf a diofn yn erbyn y Saeson a'r Daniaid; gelwir ef yn y croniclau - ' clotvorussaf vrenin y Brytanyeit.' Efallai fod ei hawl bennaf i enwogrwydd yn gorffwys ar ei berthynas â Gruffudd ap Llywelyn; merch i Faredudd oedd Angharad, mam Gruffudd ap Llywelyn .

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Maredudd ab Owain

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q2670611

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu